# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 12 Rhagfyr 2022

## SL(6)294 – Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2022

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 1992 ("Rheoliadau 1992").

O dan Ran 2 o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (ardrethu annomestig, cronni), mae'n ofynnol i awdurdodau bilio (yng Nghymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau 1992 yn cynnwys rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau hynny ar gyfer awdurdodau bilio Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy ddefnyddio Atodlen 4 newydd (ffigurau'r boblogaeth oedolion).

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

**Fe’u gwnaed ar:** 21 Tachwedd 2022

**Fe’u gosodwyd ar:** 23 Tachwedd 2022

**Yn dod i rym ar:** 31 Rhagfyr 2022